

# **Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)**

Ysbyty Llys Llanarth

The Priory Group

Dyddiad yr arolygiad: 3 – 7

Gorffennaf 2017

Dyddiad cyhoeddi: 9 Hydref 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	10
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	32
4.	Beth nesaf? .....	36
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol .....	37
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	38
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	39

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad annibynnol iechyd meddwl dirybudd yn Ysbyty Llys Llanarth ar noson 3 Gorffennaf 2017 a'r diwrnodau canlynol ar 4 a 7 Gorffennaf. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Awen – Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Canolig ar gyfer Menywod
- Deri – Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Isel ar gyfer Dynion
- Osbern – Ward Anabledau Dysgu Diogelwch Isel ar gyfer Dynion
- Teilo – Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Isel ar gyfer Dynion
- Treowen – Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Isel ar gyfer Dynion
- Howell – Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Canolig ar gyfer Dynion
- Iddon – Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Canolig ar gyfer Dynion

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl a enwebwyd), ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Ble y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd ffocws ar y gofal lleiaf rhwystredig i helpu adferiad a chefnogi cleifion i gynnal a datblygu eu sgiliau.

Roedd y staff yn gadarnhaol am y gefnogaeth a'r arweiniad roeddent yn eu derbyn. Fodd bynnag, roedd nifer o swyddi gwag o fewn y tîm amlddisgyblaethol y mae angen i'r darparwr cofrestredig eu llenwi.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd staff y ward a'r uwch-reolwyr yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn barchus
- Roedd y gwasanaeth yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau a therapïau i gleifion yn yr ysbyty ac yn y gymuned
- Roedd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar y gofal lleiaf rhwystredig i helpu adferiad a chefnogi cleifion i gynnal a datblygu eu sgiliau
- Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth a gwblhawyd yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru, wedi'u hysgrifennu'n gynhwysfawr, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Roedd trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i gyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod glendid a thaclusrwydd y wardiau yn cael eu cynnal drwy gydol y dydd a'r nos
- Arferion o ran rheoli meddyginiaethau
- Recriwtio i swyddi gwag o fewn y tîm amlddisgyblaethol

Gwnaethom nodi achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn o ran rheoli meddyginiaethau a swyddi gwag yn y tîm amlddisgyblaethol. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau

gweithredu ystyrion i fynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.

## 3. Yr hyn a ganfuom

### Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Llys Llanarth wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl annibynnol yn Llan-arth, Rhaglan, y Fenni, Sir Fynwy, NP15 2YD.

Mae'r ysbyty yn cynnwys saith ward ac un byngalo adsefydlu agored:

- Awen – gwasanaeth diogelwch canolig gyda lle i uchafswm o 16 o oedolion benywaidd rhwng 18 a 65 oed sydd â diagnosis o salwch meddyliol neu sydd ag anhwylder personoliaeth y mae modd ei drin, neu gyfuniad o'r ddau
- Deri – gwasanaeth diogelwch isel i asesu uchafswm o 11 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed
- Osbern – gwasanaeth diogelwch isel i ddarparu asesiad, triniaeth ac adsefydlu ar gyfer uchafswm o 11 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed sy'n dioddef o anhwylder meddyliol
- Teilo – gwasanaeth diogelwch isel i adsefydlu uchafswm o 20 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed sydd angen adsefydliad oherwydd anhwylder meddyliol
- Treowen – gwasanaeth diogelwch isel i adsefydlu uchafswm o 19 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed sydd angen adsefydliad oherwydd anhwylder meddyliol
- Howell – gwasanaeth diogelwch canolig i ddarparu asesiad, triniaeth ac adsefydlu tymor byr ar gyfer uchafswm o 17 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed sy'n dioddef o anhwylder meddyliol
- Iddon – gwasanaeth diogelwch canolig i ddarparu asesiad ac adsefydlu tymor byr ar gyfer uchafswm o 17 o oedolion gwrywaidd dros 18 oed sy'n dioddef o anhwylder meddyliol
- Byngalo Woodlands – Ar adeg yr arolygiad, roedd y byngalo Woodlands ar gau. Mae AGIC wedi derbyn cais gan y darparwr i amrywio amodau'r cofrestriad o ran yr agwedd hon ar y gwasanaeth.

Cofrestrwyd yr ysbyty am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 1992.

Mae'r ysbyty yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys cyfarwyddwr ysbyty a rheolwr gwasanaethau clinigol, ochr yn ochr â thimau amlddisgyblaethol a leolir ar y



ward, gan gynnwys rheolwr ward, dwy brif nyrs, clinigydd cyfrifol, seicolegydd, therapydd galwedigaethol a gweithiwr cymorth therapi. Roedd y timau amlddisgyblaethol hefyd yn cael cefnogaeth gan weithwyr cymdeithasol yr ysbyty, therapyddion chwaraeon a thiwtor oedolion.

Mae'r ysbyty yn cyflogi tîm o weithwyr cynnal a chadw, staff arlwyo, a staff domestig. Mae tîm o staff gweinyddol yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r ysbyty.

Mae'r ysbyty yn cael ei gefnogi gan reolwyr a strwythurau sefydliadol The Priory Group.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod staff y ward, uwch-reolwyr a'r staff cynorthwyol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol, ac yn trin cleifion ag urddasrwydd a pharch.

Rhodddwyd amrywiaeth o wybodaeth gyfredol i'r cleifion i'w galluogi i wneud penderfyniadau o ran eu gofal, eu triniaeth a'u lles.

Roedd yr ysbyty yn rhoi cyfleoedd i hybu, diogelu a gwella iechyd i gleifion ac roedd y rhain yn cael eu cefnogi gan amrywiaeth o gyfleusterau ysbyty. Roedd y rhain yn cynnig rhaglenni integredig ac amrywiaeth o weithgareddau i gleifion a oedd yn eu cynorthwyo i gynnal a datblygu sgiliau i wella eu profiad o fewn yr ysbyty ac ar ôl eu rhyddhau.

Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu trefn pedair ward, sef Deri, Iddon, Howell ac Osbern, i sicrhau y bydd yr holl amgylcheddau ward yn parhau i adlewyrchu safonau'r dyfodol o ran darparu ar gyfer cleifion mewnol.

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o wybodaeth a mentrau ynglŷn â hybu, diogelu a gwella iechyd ar gael i'r cleifion yn Llys Llanarth, a oedd yn helpu i gynnal a gwella lles cleifion.

Roedd swyddogaeth nyrs practis yn Llys Llanarth, a oedd yn cael ei chyflawni gan aelod o'r staff a oedd wedi'i gofrestru'n ddeuol fel nyrs iechyd meddwl a nyrs gyffredinol. Roedd y nyrs practis yn cael cymorth gan ddau gynorthwydd. Gallai'r cleifion gael mynediad hefyd at feddyg teulu, gwasanaethau deintyddol, a gweithwyr proffesiynol iechyd corfforol eraill yn ôl y gofyn. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos asesiadau corfforol a monitro manwl a phriodol.

Roedd yr ysbyty wedi dechau gwaharddiad ar ysmegu yn ddiweddar ar y safle, gan gynnwys yr holl adeiladau a thiroedd. Roedd y cleifion a oedd yn ysmegu

wedi cael eu hysbysu am y penderfyniad i roi'r gwaharddiad ar waith yn ystod 2016, er mwyn caniatáu i'r cleifion baratoi a mynd i raglenni rhoi'r gorau i ysmegu cyn i'r gwaharddiad ddechrau.

Er bod nifer o'r cleifion y buom yn siarad â hwy wedi mynegi eu hanfodlonrwydd â'r gwaharddiad ar ysmegu, cawsom sicrwydd bod staff yn cefnogi cleifion gyda'r rhaglen rhoi'r gorau i ysmegu a chynhyrchion amnewid ysmegu a thrwy roi o'u hamser i siarad â chleifion. Roedd yn gadarnhaol clywed gan ddetholiad o gleifion a staff ynglŷn â chanlyniadau cadarnhaol y gwaharddiad ar ysmegu, a oedd yn cynnwys teimlo'n iachach a mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau a therapiau'r ysbyty.

Roedd gan Lys Llanarth amrywiaeth eang o gyfleusterau a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i gefnogi'r therapiau a'r gweithgareddau a ddarperir. Roedd gan bob ward therapydd galwedigaethol enwebedig llawn amser a gweithiwr cymorth therapi. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, roedd therapydd galwedigaethol Treowen ar absenoldeb hirdymor. Roedd y therapyddion galwedigaethol eraill yn yr ysbyty yn gweithio i gynnal unrhyw asesiadau gofynnol ar y ward, ac roedd dau weithiwr cymorth therapi yn cynorthwyo wrth ddarparu gweithgareddau i'r cleifion.

Roedd pob claf a oedd yn cael ei dderbyn i'r ysbyty yn cael ei asesu gan therapydd galwedigaethol. Ar ôl cael asesiad, rhoddwyd amserlen unigol i'r cleifion, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig, yn ogystal â gweithgareddau ar y ward. Roedd amserlenni gweithgareddau cleifion unigol yn cysylltu gydag amserlen cyfleusterau'r ysbyty ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu ac yna'n cael eu newid bob 12 wythnos.

Gwelsom fod cleifion ar y wardiau'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol yr arolygiad. Roedd y rhain yn cynnwys celf a chreffft, gemau bwrdd, gemau cyfrifiadur, darllen llyfrau a phapurau newydd, creu modelau, chwarae cardiau, a gwyllo'r teledu.

Roedd cleifion a oedd wedi cael absenoldeb trwy ganiatâd hefyd yn gallu defnyddio tir helaeth yr ysbyty i fynd am dro ac mae nifer o gleifion yn pysgota'n rheolaidd mewn llyn ar dir yr ysbyty.

Roedd yr ardal gweithgareddau, y cyfeiriwyd ati fel y "Bloc Stablau", yn cynnwys digon o gyfarpar a champfa a oedd ar agor bob dydd. Roedd pwll nofio a neuadd chwaraeon fawr yn yr ardal hon hefyd ar gyfer gweithgareddau fel pêl-droed pum bob ochr, pêl-fasged a badminton. Roedd y cyfarpar codi pwysau o fewn gampfa'r ysbyty yn aros i gael ei gasglu a'i ddisodli; nid oedd hyn wedi cael ei gwblhau ar adeg yr arolygiad. Mae'n rhaid i'r darparwr

cofrestredig sicrhau bod hwn yn cael ei ddisodli er mwyn cynnal a chadw'r cyfleuster hwn i gleifion yn yr ysbyty.

Hefyd, roedd campfa wedi'i lleoli ar Ward Awen, a oedd yn cynnig man i'r cleifion benywaidd lle y gallent wneud ymarfer corff i ffwrdd o'r cleifion gwrywaidd yn yr ysbyty, pe baent yn dymuno. Roedd sesiynau nofio i fenywod yn unig hefyd.

Roedd hefyd gan yr ysbyty ddau therapydd chwaraeon a oedd yn gweithio gyda chleifion yn unigol neu ar ffurf grŵp. Roedd tri o'r aelodau staff yn achubwyr bywydau cymwysedig er mwyn iddynt allu darparu'r cymorth gofynnol ar gyfer pwll nofio'r ysbyty.

O fewn y Bloc Stablau, roedd ystafell gelf a chreffft hefyd, a ddefnyddid gan y tîm therapi galwedigaethol, a chanolfan addysgol, a oedd yn cael ei rhedeg gan diwtor llawn amser. Roedd tiwtor a rheolwr therapi galwedigaethol yn arwain y rhaglen "Coleg Gwella", lle roedd cleifion yn dysgu amrywiaeth eang o sgiliau, megis sgiliau cyfrifiadur, rhifedd a sgiliau iaith. Roedd y Coleg Gwella yn defnyddio'r cyfleoedd oedd ar gael i gleifion drwy Rwydwaith y Coleg Agored.<sup>1</sup>

Roedd y Coleg Gwella yn rhan integredig o ofal y cleifion, a'r gweithgareddau a'r cyfleoedd yn yr ysbyty a fyddai'n fuddiol i gleifion ar ôl cael eu rhyddhau. Roedd rhaglen y Coleg Gwella yn cynnwys sgiliau cyflogaeth, a oedd yn cynnwys hyfforddiant cyfweiliadau a sut i redeg busnes bach, a chyfle i weithio yng nghaffi'r safle. Byddai'n ofynnol i'r cleifion gwblhau cyrsiau er mwyn meddu ar y sgiliau i weithio yn y caffi, a oedd yn cynnwys sgiliau rhifedd a chymhwyster Lefel 2 mewn hylendid bwyd. Roedd cyrsiau eraill yn cynnwys deall diogelwch ar y rhynggrwyd a sut i agor cyfrifon siopa ar-lein, a chyrsiau i gleifion hefyd ar ddeall budd-daliadau, sgiliau cyllidebu, a chynngor ar ddyled.

Fel rhan o'r adolygiad sy'n mynd rhagddo ar y ddarpariaeth addysg yn yr ysbyty, casglwyd syniadau'r cleifion o ran pa addysg a sgiliau yr hoffent gymryd rhan ynddynt. Byddai'r tiwtor a'r tîm therapi galwedigaethol yn ystyried barn y cleifion ac yn ymchwilio i ddarpariaeth y cyrsiau hyn, boed hynny ar y safle neu o fewn y gymuned. Yn dilyn ein harolygiad blaenorol, roedd y darparwr

---

<sup>1</sup> Mae Rhwydwaith y Coleg Agored yn cydnabod dysgu anffurfiol a gyflawnir gan oedolion i ddatblygu ac yn rhoi cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol.

cofrestredig wedi ymchwilio i'r cyfleoedd i gleifion gael mynediad at sgiliau gwaith corfforol yn y coleg lleol, megis cyrsiau plymio a chyrsiau i drydanwyr. Yn anffodus, oherwydd diffyg lle ar y cyrsiau, a'r galw mawr am gyrsiau o'r math hwn, nid oedd yr ysbyty yn gallu cofrestru cleifion â diddordeb.

Roedd ceginau therapi galwedigaethau unigol ar wardiau Awen, Teilo a Threowen ac roedd dwy gegin therapi galwedigaethol yn y Bloc Stablau ar gyfer Deri, Howell, Iddon ac Osbern. Roedd cyfleusterau da yn y ceginau therapi galwedigaethol i gleifion gymryd rhan mewn sesiynau coginio. Gwnaethom arsylwi ar nifer o gleifion yn cymryd rhan mewn sesiynau coginio a nododd nifer o rai eraill eu bod yn coginio'n rheolaidd. Fel rhan o'r sesiynau coginio therapi galwedigaethol, yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth addysg yn yr ysbyty, roedd cleifion yn derbyn addysg ar faetheg, bwyta'n iach, a choginio os yw arian yn dynn.

Roedd y cyfleusterau a oedd ar gael oddi ar y wardiau hefyd yn cynnwys canolfan arddwriaethol a chreffft, a oedd yn trefnu amryw o weithdai i'r cleifion, megis gwaith coed a mynediad at dai gwydr a gerddi mawr ar gyfer gweithgareddau garddwriaethol. Roedd cleifion a oedd yn gweithio yn y gweithdai wedi adeiladu siop goffi fawr yn yr ardal hon y gallai cleifion ei defnyddio.

Roedd clwb cymdeithasol yn yr ysbyty hefyd, a oedd wedi ei addurno'n ddeniadol ac a oedd yn cynnwys jiwcbocs, bwrdd tennis bwrdd a bwrdd pŵl, bwrdd dartiau, hoci aer, a thaflunydd ar gyfer ffilmiau. Roedd y clwb hefyd yn cynnwys llyfrgell a siop i'r cleifion, a oedd yn cael eu rhedeg gan gleifion gyda chefnogaeth gan y tîm therapi galwedigaethol, fel rhan o'r cyfleoedd swyddi a gynigir yn yr ysbyty.

Roedd gan bob un o'r saith ward ei cherbyd penodedig ei hun er mwyn i gleifion allu mynd i'r gymuned pan oedd ganddynt absenoldeb trwy ganiatâd. Byddai un o gerbydau'r wardiau'n cael ei neilltuo fel cerbyd argyfwng yr ysbyty ar un diwrnod yr wythnos rhag ofn bod angen i glaf adael yr ysbyty'n annisgwyl, e.e. ar gyfer apwyntiad meddygol brys. Ar y diwrnod pan nad oedd cerbyd ar y ward, byddai staff y ward yn hwyluso grŵp trafndiaeth gyhoeddus er mwyn i gleifion ddefnyddio'r cyfle hwn fel rhan o'u hadsefydlu.

Roedd y staff o'r gwahanol ddisgyblaethau y gwnaethom siarad â nhw'n gadarnhaol iawn am y trefniadau ar gyfer gweithgareddau a therapi ac roeddent yn teimlo bod yr ysbyty a'r wardiau yn gallu hwyluso ystod eang o weithgareddau i'r cleifion.

Roedd cleifion yn gadarnhaol am y cyfleusterau a'r gweithgareddau oedd ar gael yn yr ysbyty. Fodd bynnag, gwnaeth nifer o gleifion fynegi eu

hanfodlonrwydd â'r ddarpariaeth ryngrwyd ar y wardiau. Dywedwyd wrthym fod hyn o ganlyniad i'r seilwaith TG yn yr ysbyty, a bod hyn yn cael ei adolygu gan y darparwr cofrestredig fel y byddai cleifion yn gallu cael mynediad unigol - yn unol ag asesiad risg - at y rhyngrwyd. Fel y nodwyd uchod, roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at y rhyngrwyd yn y ganolfan addysg.

**Yr hyn y mae angen ei wella** Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddisodli'r cyfarpar codi pwysau yng nghampfa'r ysbyty. Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y rhyngrwyd ar gael ar y wardiau, yn seiliedig ar asesiadau risg unigol y cleifion.

## Urddas a pharch

Ym mhob rhan o'r ysbyty, gwelsom fod staff wardiau, uwch-reolwyr a staff cynorthwyol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol, ac yn eu trin ag urddasrwydd a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn angerddol ynghylch eu gwaith, ac yn frwdfrydig o ran sut roeddent yn cefnogi ac yn gofalu am y cleifion.

Clywsom y staff yn siarad â chleifion mewn tonau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn dangos parch tuag at gleifion gan gynnwys rhyngweithio prydlon a phriodol i geisio atal ymddygiad cleifion rhag dwysáu. Pan oedd cleifion yn mynd at aelodau staff, roeddent yn ymateb gydag agweddau caredig ac ymatebol.

Yn ystod yr arolygiad, cynhaliodd yr ysbyty ddau ddiwrnod mabolgampau, un ar gyfer y cleifion benywaidd a'r llall ar gyfer cleifion gwrywaidd, ac roedd yn gadarnhaol gweld rhyngweithio ac ymgysylltu da rhwng y cleifion a'r staff yn ystod y digwyddiadau hyn. Gwnaeth y digwyddiad hwn amlygu'r parch mawr rhwng y cleifion a'r staff yn Llys Llanarth.

Roedd yn gadarnhaol hefyd nodi bod y staff wedi dogfennu a deall hoffterau unigol y cleifion o ran ymyriadau i reoli eu hymddygiad pan oedd yn heriol. Drwy gydol ein sgysiau â chleifion a'r staff, cawsom ein hysbysu bod yr hoffterau ymlaen llaw hyn yn cael eu dilyn lle bo'n bosibl, a oedd yn helpu i gynnal urddasrwydd a lles y cleifion yn ystod sefyllfaoedd anodd.

Ar draws yr ysbyty, roedd tystiolaeth glir bod arferion y staff a'r polisiâu yn dilyn egwyddorion arferion lleiaf cyfyngol wrth ddarparu gofal. Roedd hyn yn helpu i gynnal urddasrwydd cleifion a gwella gofal unigoledig yn Llys Llanarth. Roedd cyfarfodydd arferion lleiaf cyfyngol yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar y wardiau ac yn yr ysbyty i adolygu a thrafod arferion er mwyn lleihau'r rhwystrau ar gleifion yn Llys Llanarth yn seiliedig ar ymchwil a risgiau.

Roedd datganiad o ddiben y darparwr cofrestredig hefyd yn disgrifio sut y byddai staff yr ysbyty yn cefnogi cleifion mewn ffyrdd a fyddai'n cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun. Roedd y cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely, ond gallai'r staff eu hagor pe bai angen. Roedd gan y cleifion ar wardiau Awen, Teilo a Threowen ystafelloedd gwely gyda chyfleusterau en-suite, a oedd yn cynnwys toiled, sinc a chawod. Roedd gan y cleifion ar wardiau Deri, Iddon, Howell ac Osbern ystafelloedd gwely gyda sinc, ond gyda thoiledau a chawodydd a rennir.

Er bod diffyg cyfleusterau en-suite ar bedair o'r wardiau yn lleihau'r preifatrwydd a roddir i gleifion, mae strwythur y wardiau yn golygu na fydd yn hawdd cynnal gwaith adnewyddu a gosod cyfleusterau en-suite. Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gosod ystafelloedd gwely en-suite ar gyfer yr holl gleifion fel datblygiad gwasanaeth hirdymor yn Llys Llanarth i gael gwared ar yr amrywiaeth o ran cyfleusterau ar draws y wardiau gwahanol, a sicrhau bod amgylcheddau'r holl wardiau yn parhau i adlewyrchu safonau'r dyfodol o ran darparu ar gyfer cleifion mewnol.

Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely ac roedd yn amlwg y gallai cleifion bersonoli eu hystafelloedd. Roedd gan y cleifion ddigon o fannau storio ar gyfer eu heiddo yn eu hystafelloedd, a oedd yn cynnwys cwpwrdd cloadwy a blwch arian. Roedd unrhyw eitemau yr ystyriwyd eu bod yn peri risg i ddiogelwch cleifion, megis ellynnau, erosolau ac ati, yn cael eu storio'n ddiogel ac yn drefnus ar bob un o'r wardiau, a byddai'r cleifion yn gofyn i gael gafael arnynt.

Roedd paneli arsylwi yn yr ystafelloedd gwely er mwyn caniatáu i'r staff arsylwi heb agor y drws ac efallai amharu ar y claf. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y paneli arsylwi ar gau ac yn cael eu hagor i wneud arsylwadau a'u cau yn dilyn hynny. Roedd hyn yn helpu i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y claf.

Fodd bynnag, roedd rhai cleifion wedi gosod tywel dros ben y tu allan i'w drws i atal y golau o goridor y ward rhag dod i mewn i'r ystafelloedd drwy'r paneli arsylwi yn ystod y nos, gan ddweud bod hyn yn amharu ar eu cwsg. Roedd y staff yn dal yn gallu codi'r tywel a defnyddio'r paneli arsylwi i arsylwi ar y claf yn ei ystafell a sicrhau ei fod yn iawn. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig fod yr ysbyty wrthi'n treialu opsiwn ar gyfer y paneli arsylwi ar un ward i roi'r gorau i'r arfer hwn mewn perthynas â detholiad o gleifion, ac os ystyrir bod yr opsiwn hwn yn addas, byddai'n cael ei gyflwyno ledled yr ysbyty.

Roedd gan bob ward ystafelloedd addas i'r cleifion gwrdd â pherthnasau, staff y ward, a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn gyfrinachol. Roedd ystafell hefyd i blant a oedd yn ymweld, mewn man nad oedd ar y ward, a oedd ar gael

i gleifion gwrdd ag aelodau iau'r teulu. Pan nad oedd y cleifion yn gallu gadael y ward, roedd y staff yn gallu trefnu iddynt siarad â pherthnasau iau drwy Skype. Roedd y cyfleuster hwn hefyd ar gael i berthnasau a ffrindiau eraill nad oeddent yn gallu dod i'r ysbyty.

Roedd trefniadau addas ar gyfer mynediad ffôn ar bob un o'r wardiau, er mwyn caniatáu i'r cleifion wneud a derbyn galwadau ffôn yn breifat. Yn dibynnu ar asesiad risg unigol, roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at eu ffonau symudol. Roedd y cleifion yn arwyddo cytundeb ffôn symudol gyda'r darparwr cofrestredig, ac yn cytuno â'r telerau defnyddio i gadarnhau na fyddai'r ffôn symudol yn cael ei gamddefnyddio ac y byddai modd i'r staff fonitro defnydd a chynnwys y ffôn.

Roedd wardiau Deri, Iddon, Howell ac Osbern wedi'u rhannu dros ddau lawr, gyda'r prif fannau cymunol i lawr y grisiau, a'r ystafelloedd gwely a'r manau cymunol a chyfleusterau eraill i fyny'r grisiau ar bob un o'r wardiau. Oherwydd y ffordd y mae'r wardiau wedi eu trefnu, roedd mynediad llai gan gleifion ar y wardiau hyn, naill ai i fyny'r grisiau neu i lawr y grisiau, ac felly eu hystafelloedd gwely. Gwnaeth y staff esbonio'r rhesymeg am y trefniadau, gan esbonio'r anawsterau posibl o ran cynnal diogelwch y cleifion pe bai ganddynt fynediad at ddau lawr y ward.

Roedd pob ward wedi gwneud trefniadau gyda chleifion o ran yr amseroedd pan fyddai'r cleifion ar y llawr daear neu i fyny'r grisiau. Roedd y cleifion ar y wardiau gwahanol wedi pleidleisio ar ba bryd yr oeddent am fod i fyny'r grisiau ac roeddem yn gallu gweld bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr amseroedd gwahanol ar draws y wardiau. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yr oeddent yn teimlo fel eu bod yn cael eu "gyrru i'w hystafelloedd gwely" ac roeddent yn anfodlon â'r amseroedd penodedig o ran cael mynediad at eu hystafelloedd gwely a'r llawr daear. Yn ystod trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddisgrifio dull pragmatig ar gyfer hwyluso ceisiadau i gael mynediad at ystafelloedd gwely y tu allan i'r amserau penodedig, gan ddweud y byddent yn ceisio bodloni'r rhain lle bo'n bosibl.

Roedd cael amseroedd penodedig ar gyfer cael mynediad at ystafelloedd gwely, neu'r gofyn i gleifion fynd i fyny'r grisiau ar amserau penodedig, yn rhwystredig i'r cleifion. Fodd bynnag, roedd lolfeydd cymunol ar bob un o'r wardiau er mwyn i'r cleifion gymdeithasu yn ystod y cyfnodau hyn, a gallai'r cleifion gael amrywiaeth o eitemau yn eu hystafelloedd gwely, megis llyfrau, teledu, consolau gemau, ac ati. Fel y nodwyd uchod, dylai'r darparwr cofrestredig ystyried amgylchedd y gofal ar y wardiau hyn, i sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i adlewyrchu safonau'r dyfodol o ran darparu ar gyfer cleifion mewnol.



**Yr hyn y mae angen ei wella** Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol ar waith fel nad yw'r cleifion yn gosod tyweli dros y panelau arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely. Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r drefn ofodol ar gyfer y dyfodol ar y pedair ward Deri, Iddon, Howell ac Osbern i sicrhau y bydd amgylcheddau'r wardiau yn parhau i adlewyrchu safonau'r dyfodol o ran darparu ar gyfer cleifion mewnol. Yn ogystal, dylid cael gwared ar y gofyniad i gleifion gael eu lleoli ar lefelau penodol o'r wardiau yn ystod y dydd.

### **Gwybodaeth a chydysniad cleifion**

Roedd amrywiaeth o wybodaeth gyfredol ar gael yn yr ysbyty. Roedd yr hysbysfyrddau ar y wardiau yn cynnig gwybodaeth fanwl a pherthnasol i gleifion. Er hynny, gwelsom ychydig o anghysondebau o ran y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos ar hysbysfyrddau; roedd rhai yn flêr ac roedd angen sylw arnynt i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei harddangos yn glir a'i bod yn gyfredol.

Roedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos yn cynnwys gweithgareddau cleifion, gwybodaeth statudol, gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r ddarpariaeth eiriolaeth, sut i wneud cwyn, a gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Trwy gydol ein harsylwadau ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn treulio amser i gynnal sgysiau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol. Lle'r oedd cleifion yn aneglur neu wedi camddeall o hyd, byddai'r staff yn esbonio'r hyn roeddent wedi ei ddweud yn amyneddgar.

Roedd pob ward yn cynnal cyfarfodydd cynllunio beunyddiol bob bore i drefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ochr yn ochr â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, megis cyfarfodydd cynllunio gofal, tribiwnlysoedd, apwyntiadau meddygol ac ati.

Roedd cyfarfodydd wardiau bob wythnos lle roedd gan gleifion y cyfle i roi adborth o ran y gofal roeddent yn ei dderbyn yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon.

Mewn cyfarfodydd unigol, roedd cleifion yn gallu cael cymorth ac arweiniad gan gyrrff allanol, fel cyfreithwyr neu wasanaethau eiriolaeth. Lle bynnag y bo modd, roedd teuluoedd a gofalwyr y cleifion yn bresennol yn ystod rhai cyfarfodydd, gyda chaniatâd y claf.

Gwnaethom arsylwi, ac roedd cofnodion y cleifion yn nodi, cyfraniad unigol cleifion at y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Roedd ffocws clir ar adsefydlu, gyda gofal cleifion unigoledig a oedd yn cael ei gefnogi gan arferion lleiaf cyfyngol, mewn perthynas â chynllunio gofal ac arferion y wardiau neu'r ysbyty.

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau wythnosol ei hun a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd caniatâd gofynnol ar waith).

Fel y nodwyd uchod, roedd y gweithgareddau yn amrywiol ac yn canolbwyntio ar adsefydlu, naill ai yn yr ysbyty neu yn y gymuned. Roedd cyfraniad unigol pob claf yn cael ei fonitro a'i archwilio. Lle roedd cleifion yn gwrthod, gwelsom y staff yn cynnig gweithgareddau eraill; cofnodwyd hyn yng nghofnod y claf. Roedd archwiliad rheolaidd o gyfranogiad mewn gweithgareddau, a fyddai'n cyfrannu at y broses o gynllunio gweithgareddau yn chwarterol.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd arferion y staff yn cyd-fynd â pholisïau ysbyty sefydledig ac roedd systemau yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

### **Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth**

Roedd cyfarfodydd cleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn i gleifion roi adborth o ran y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd i roi gwybod i berthnasau a gofalywyr ynglŷn â sut i roi adborth.

Roedd polisi a gweithdrefnau cwynion ar waith yn Llys Llanarth. Mae'r polisi yn cynnwys strwythur ar gyfer ymdrin â holl gwynion cleifion mewn perthynas â'r gwasanaethau yn Llys Llanarth.

Archwiliwyd hapsampl o bum cofnod cwyno yn ystod ein harolygiad, er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cydymffurfio â'r polisi cwyno. Roedd y cwynion yn cael eu rheoli'n bennaf drwy system electronig o nodi a chofnodi, gyda ffeiliau papur a oedd yn cynnwys mwy o fanylder i ategu'r rhain. Roedd y prosesau cwyno a'r camau cysylltiedig yn cael eu goruchwylio gan un aelod o'r staff yn yr ysbyty.

Dangosodd y sampl fod cwynion yn cael eu cofnodi drwy gronfa ddata Llys Llanarth ei hun. Roedd hon yn darparu cyfeirnod unigryw ac roedd ffolderi yn cael eu sefydlu i gadw'r dogfennau ar gyfer pob cwyn unigol. Byddai unigolyn annibynnol wedyn yn cael ei benodi i archwilio'r cwyn, ac roedd camau yn cael eu cymryd yn unol â pholisi cwynion y sefydliad.

O ystyried nifer uchel y cwynion gan gleifion, roedd llawer o enghreifftiau o arfer gorau. Er enghraifft, roedd y rhan fwyaf o gwynion yn derbyn sylw mewn modd amserol, gydag ymatebion a oedd yn fanwl, yn gwrtais, ac yn glir o ran y camau i'w cymryd.

Fodd bynnag, pan oedd canlyniad cwyn yn golygu bod angen i'r tîm amlddisgyblaethol gymryd camau gweithredu, nid oedd y tîm amlddisgyblaethol yn rhoi adborth i'r swyddog cwynion bob amser o ran canlyniad y camau gweithredu i ddangos pa gamau a oedd wedi cael eu cymryd.

Gallai'r broses o ymdrin â chwynion gael ei gwella ymhellach drwy weithredu system i gofnodi pryderon "yn y fan a'r lle" yn electronig. Cofnodwyd y rhain mewn ffeiliau papur, a oedd felly yn ei gwneud hi'n anodd nodi tueddiadau neu ledaenu unrhyw ddysgu a rennir.

**Yr hyn y mae angen ei wella** Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried cynnwys rhan sy'n nodi canlyniad unrhyw gamau gweithredu a gymerir gan y tîm amlddisgyblaethol yn ei daenlen pryderon.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gyda dodrefn, darnau gosod a gosodiadau a oedd yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau. Roedd hyn yn caniatáu i'r staff barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, roedd angen gwneud nifer o welliannau o ran arferion rheoli meddyginiaeth. Roedd gweithrediadau'r staff wrth ddarparu gofal i gleifion yn blaenoriaethu egwyddorion gofal lleiaf cyfyngol, ac roedd y gofal hwn yn cael ei fanylu yng nghofnodion y cleifion. Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth. Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth cleifion yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Roedd prosesau ar waith yn Llys Llanarth i reoli ac adolygu risgiau, a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd yr ysbyty yn darparu gofal unigoledig ar gyfer cleifion a oedd yn cael ei gefnogi gan arferion lleiaf cyfyngol, yn y cynlluniau gofal ac arferion yr ysbyty neu'r wardiau fel ei gilydd.

Roedd gan bob ward weithdrefnau diogelwch ar waith i leihau'r risg y byddai eitemau a gyfyngir yn cael eu cymryd i'r wardiau. Roedd pob sifft yn cynnwys nyrs ddiogelwch a benodwyd a oedd yn gyfrifol am gynnal y protocolau diogelwch ar bob ward.

Roedd gan y wardiau restr o eitemau gwaharddedig a oedd yn cael ei harddangos cyn mynediad, ac roedd loceri diogel ar gael er mwyn storio unrhyw eitemau na ellir eu cymryd i'r ward, e.e. ffonau symudol, tanwyr, hylifau fflamadwy ac ati.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth pe bai angen; rhoddwyd y rhain i'r staff wrth iddynt gyrraedd ward. Roedd pwyntiau galw am nyrs o amgylch y wardiau ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn i'r cleifion allu galw am gymorth pe bai angen.

Roedd system gyfrifiadur ddiogel ar waith ar gyfer rheoli a rhoi allweddi wardiau a'r ysbyty i'r staff. Roedd hyn yn sicrhau bod y staff ond yn derbyn allweddi a oedd yn caniatáu iddynt gael mynediad at fannau'r ward a'r ysbyty lle'r oedd ganddynt awdurdod i fod ynddynt. Roedd y staff yn casglu'r allweddi o gabinet diogel ar bob ward yr oedd angen i'r staff sganio eu cerdyn adnabod a rhoi eu Rhif Adnabod Personol unigryw er mwyn cael mynediad ato. Nid oedd y staff yn gallu gadael ward heb ddychwelyd yr allweddi a roddwyd iddynt i'r cabinet diogel, ac roedd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd yn sylweddol y byddai'r staff yn gadael y ward gydag allweddi'r ysbyty.

Ar y cyfan, roedd yr ysbyty yn cael ei gynnal yn dda, a oedd yn sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr. Gallai'r staff adrodd i dîm ystadau'r ysbyty ynghylch materion amgylcheddol, ac roedd y tîm hwn yn cadw cofnod o broblemau a'r gwaith yr oedd angen ei wneud a'r gwaith a gwblhawyd. Hefyd, roedd cyfarwyddwr yr ysbyty a'r rheolwr gwasanaethau clinigol yn cerdded o amgylch yr ysbyty bob wythnos er mwyn adolygu'r amgylchedd a siarad â'r staff a'r cleifion.

Fe'n hysbyswyd bod tîm ystadau ymatebol ar gyfer yr ysbyty, a bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud mewn da bryd i gontractwyr pan oedd angen. Trwy gydol yr arolygiad, gwelsom y tîm ystadau yn ymateb ac yn gwneud gwaith cynnal a chadw i gywiro problemau amgylcheddol.

Yn ystod ein sgysiau gyda'r cleifion, dywedodd nifer ohonynt er eu bod yn teimlo bod yr ysbyty yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, nid oeddent wedi derbyn digon o wybodaeth o ran parhad a dyddiad cwblhau'r gwaith gweddnewid yn yr ysbyty. Yn ystod sesiwn adborth yr arolygiad, cadarnhaodd y darparwr cofrestredig y byddai'n ystyried sut i roi gwybod i gleifion ynglŷn â pharhad y gwaith gweddnewid wrth gynnal disgwyliadau'r cleifion.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod mannau o'r ysbyty lle'r oedd eitemau neu sbwriel a malurion yn y bwlch rhwng y ffenestri a'r amddiffynwyr ffenestri Perspex. Gwnaeth y darparwr cofrestredig gadarnhau bod rhaglen barhaus a threigl ar waith gan y tîm ystadau i lanhau'r mannau hyn ar draws yr ysbyty, a oedd yn atal gweddillion rhag cronni'n sylweddol.

Roedd y dodrefn, y darnau gosod a gosodiadau yn yr ysbyty yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd asesiadau risg pwyntiau clymu cyfredol ar waith. Roedd y rhain yn nodi pwyntiau clymu posibl a pha gamau a oedd wedi cael eu cymryd i waredu neu reoli'r rhain.

Roedd yr ysbyty yn defnyddio'r fenter Safewards, sy'n cynorthwyo staff i leihau risg ac amllder ymddygiad heriol drwy arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd hyn yn helpu i gynnal diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar y system, a oedd yn nodi enwau'r claf (neu gleifion) a'r staff a oedd yn bresennol, disgrifiad o'r digwyddiad, lleoliad a hyd y digwyddiad, a phryd y digwyddodd. Roedd unrhyw ataliaeth a ddefnyddiwyd yn cael ei dogfennu, gan gynnwys pwy gymerodd rhan ac osgo corff pob un a oedd ynghlwm wrth atal y claf. Roedd adroddiadau am ddigwyddiadau yn cael eu cysylltu'n awtomatig â nodiadau gofal electronig unigol y cleifion, a oedd yn sicrhau bod y rhain yn gyfredol.

Roedd strwythur hierarchaidd ar gyfer cymeradwyo adroddiadau am ddigwyddiadau, a oedd yn sicrhau bod yr adroddiadau hyn yn cael eu hadolygu mewn da bryd gan aelod o'r tîm clinigol a oedd yn cyfrannu at ofal unigolledig y claf a gweithiwr a oedd yn gyfrifol am iechyd a diogelwch yr ysbyty.

Roedd adroddiadau am ddigwyddiadau yn cael eu cynhyrchu a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid adolygu a dadansoddi digwyddiadau. Gellid cynhyrchu adroddiadau ychwanegol yn ôl y gofyn i edrych ar feysydd penodol yn ôl yr angen. Roedd y system adrodd am ddigwyddiadau a'r amserlenni adrodd yn sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u monitro i gynorthwyo wrth ddarparu gofal diogel yn Llys Llanarth.

Fel rhan o strategaeth yr ysbyty ar gyfer rheoli ymddygiad heriol, roedd gan bob ward (ar wahân i fyngalo Woodlands) ystafell ofal dwys, ac roedd Ward Awen, sef y ward ar gyfer menywod yn unig, yn cynnwys dwy. Roedd cyfleusterau'r ystafelloedd gofal dwys yn cynnwys toiled a chawod hunangynhwysol. Roedd gan yr ystafelloedd gofal dwys fynediad hefyd at erddi diogel y gallai cleifion gael mynediad atynt pan oeddent yn yr ystafell gofal dwys.

Defnyddio'r ystafell gofal dwys oedd y cam olaf a ddilynwyd gan y staff wrth reoli ymddygiad claf, a gellid ei defnyddio ar gyfer ymwahanu claf.<sup>2</sup> Os oedd risg y claf yn golygu ei bod yn ofynnol, roedd dillad gwely a dillad gwrthwygo yn cael eu darparu i helpu i gynnal ei urddasrwydd tra oedd yn derbyn gofal o fewn ystafell gofal dwys. Roedd gan y darparwr cofrestredig bolisi ar waith ar gyfer defnyddio ystafelloedd gofal dwys ac ymwahanu. Pan oedd ystafell gofal

---

<sup>2</sup> Cadw claf o dan oruchwyliaeth mewn ystafell, a all fod o dan glo. Ei unig nod yw rheoli ymddygiad cynhyrfus iawn sy'n debygol o beri niwed i bobl eraill.

dwys yn cael ei defnyddio, gallai cleifion fod yno am gyfnod byr (e.e. ychydig funudau) neu am gyfnodau hirfaith dros ddiwrnodau neu wythnosau. Roedd yr adegau pan ddefnyddiwyd yr ystafell gofal dwys ac ymwahanu yn cael eu cofnodi a'u monitro.

Gwelsom dystiolaeth hefyd mewn nodiadau cleifion a thrwy siarad â'r staff a'r cleifion, pe bai claf am gael mynediad at ystafell gofal dwys fel modd o reoli ei ymddygiad ei hun, gallai ofyn i staff y ward am hyn. Roedd hyn yn arfer ychwanegol yn yr ysbyty a oedd yn dangos bod cleifion yn cymryd rhan wrth reoli eu gofal eu hunain a bod y staff yn gallu cymryd camau i gynorthwyo cleifion i reoli eu lles ac atal unrhyw ddirywiad dianghenraid o ran eu hiechyd.

Gwnaethom nodi bod sawl un o'r cysgodfannau ysmegu wedi'u difrodi ar draws yr ysbyty; gwnaethom dynnu sylw rheolwyr yr ysbyty at hyn, a gymerodd camau gweithredu i gael gwared ar y risg i ddiogelwch cleifion. Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r cysgodfannau ysmegu ar draws yr ysbyty ac ystyried a fyddai'n bosibl darparu cysgodfan mwy priodol yn y gerddi ar ôl i waharddiad ysmegu'r ysbyty ddechrau.

Roedd gan yr ysbyty gynllun parhad busnes ar waith a oedd yn cynnwys pethau megis tywydd garw, methiannau o ran y ddarpariaeth o gyfleustodau, ac achosion o salwch heintus.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu ynglŷn â pharhad y gwaith gweddnewid.

Dylai'r ysbyty adolygu'r cysgodfannau ysmegu ac ystyried p'un a ellid darparu cysgodfan mwy priodol yn y gerddi ar ôl i waharddiad ysmegu'r ysbyty ddechrau.

#### Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Mae'r darparwr cofrestredig yn cyflogi staff cadw tŷ ymroddedig yn Llys Llanarth. Roedd yr ystafelloedd ymolchi, y cawodydd a'r toiledau cymunedol yn lân, yn daclus ac yn rhydd rhag annibendod, ac roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ym mhob ward/cegin a man ymolchi.

Roedd cyfarpar glanhau wedi'i storio a'i drefnu'n briodol. Yn gyffredinol, drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod yr ysbyty yn lân ac yn rhydd rhag annibendod yn ôl pob golwg. Fodd bynnag, gwnaethom nodi yn ystod noson gyntaf yr arolygiad bod y wardiau yn ymddangos yn eithaf anniben o'u cymharu ag yn ystod y dydd.

Yn ystod noson gyntaf a diwrnod canlynol yr arolygiad, roedd arogl annifyr cryf o fewn coridor un o'r ystafelloedd gwely ar Ward Teilo. Er bod hyn wedi cael sylw yn ystod yr arolygiad, cadarnhaodd nifer o'r cleifion y buom yn siarad â hwy ar y ward fod hyn yn digwydd yn aml a'i fod yn cael effaith negyddol ar brofiad y claf ar y ward.

Roedd nifer o fannau'r ward yn cynnwys arwyddion wedi'u hysgrifennu â llaw a marciau gweddillion tâp gludog lle'r oedd eitemau wedi cael eu glynu ar ddrysau a ffenestri. Yn anffodus, roedd hyn yn golygu bod rhannau o'r wardiau yn edrych yn flêr ac ychydig yn anniben.

Roedd nifer o'r peiriannau cyflenwi diodydd poeth ac oer ar rai o'r wardiau yn anhaclus ac roedd angen eu glanhau, ac roedd problem arbennig ar Ward Howell, lle'r oedd yr hambwrdd dal diferynnau'r cyflenwr llaeth ar goll ac felly nid oedd yn atal unrhyw laeth ychwanegol rhag llifo i'r llawr.

Roedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael mewn manau perthnasol. Roedd gan y staff fynediad hefyd at gyfarpar diogelu personol pan oedd angen.

Roedd y cyfleusterau golchi dillad yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac roedd yr ystafelloedd golchi dillad a'r cypyrddau lleiniau wedi'u trefnu'n dda ar draws y wardiau. Fodd bynnag, nid oedd y peiriant sychu dillad ar Ward Teilo yn gweithio.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y wardiau yn cael eu cadw'n daclus drwy gydol y dydd a'r nos.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cymryd camau priodol a phrydlon i fynd i'r afael ag aroglau annymunol ar y wardiau.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad oes marciau gweddillion tâp gludog ar y wardiau.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hambwrdd dal diferynnau y cyflenwr llaeth ar Ward Howell yn cael ei ddisodli.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod peiriannau cyflenwi diodydd poeth ac oer y cleifion yn cael eu cadw'n lân drwy gydol y dydd a'r nos.

#### Maetheg



Roedd peiriannau cyflenwi ar bob ward y gallai'r cleifion eu defnyddio i wneud eu diodydd poeth ac oer eu hunain. Roedd y cyfleusterau hyn yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan gleifion. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, roedd nifer o'r rhai a welsom yn anniben gyda diodydd wedi colli a staeniau ar wyneb yr unedau.

Roedd y cleifion yn Llys Llanarth yn derbyn pedwar pryd bwyd y dydd, gan gynnwys brecwast, cinio, cinio nos, a swper yn hwyrach gyda'r nos. Roedd y bwydlenni'n newid bob pedair wythnos ac, wrth eu hadolygu, gwelsom eu bod yn rhoi amrywiaeth o opsiynau prydau a byrbrydau i gleifion. Roedd y fwydlen yn amrywio bob tymor drwy gydol y flwyddyn.

Dywedodd y staff wrthym fod darpariaeth ar gyfer cleifion â deietau penodol/arbennig, gan gynnwys deietau fegan ac anoddefiad i glwten a deietau sy'n bodloni anghenion crefyddol. Roedd nifer o gleifion yn yr ysbyty gydag anghenion diabetig neu a oedd angen deiet meddal. Roedd y prif gogydd yn cyfarfod â chleifion ag anghenion deietegol penodol ac yn trafod pa opsiynau addas oedd ar gael.

Roedd adborth y cleifion o ran y prydau bwyd ac opsiynau'r fwydlen yn cael eu casglu ac roedd hyn yn helpu wrth adolygu a pharatoi opsiynau ar gyfer y fwydlen. Nid oedd gan y cleifion y buom yn siarad â nhw bryderon o ran y prydau bwyd oedd ar gael.

Yn ogystal â'r prydau bwyd a ddarparwyd, fel y nodwyd yn gynharach, gallai'r cleifion ddefnyddio y ceginau therapi galwedigaethol i baratoi eu prydau bwyd eu hunain ac archebu bwydydd parod i'r ysbyty. Roedd ffrwythau ffres ar gael ar bob un o'r wardiau a gallai'r cleifion brynu byrbrydau o siop yr ysbyty neu yn ystod absenoldeb cymunedol neu drwy fynd i gaffi'r ysbyty.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Ar y cyfan, gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei rheoli mewn ffordd ddiogel ac effeithiol ar y wardiau. Roedd y feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel, ac roedd y cypyrddau a'r oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu cloi, a'r trolïau meddyginiaeth yn cael eu gosod yn sownd. Roedd mewnbwn rheolaidd gan y fferyllfa, ac roedd archwiliadau yn cael eu cynnal a oedd yn helpu'r rheolwyr a'r broses o ragnodi a rhoi meddyginiaeth yn yr ysbyty.

Roedd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n rheolaidd i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr.

Roedd trefniadau priodol ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau sy'n agored i gael eu camdefnyddio, ac roedd y rhain yn cael eu cyfrif a'u gwirio bob dydd. Er hynny, gwnaethom nodi ar Ward Iddon bod cyffuriau nas rheolir yn cael eu storio'n ddianghenraid yn y cwpwrdd cyffuriau a reolir.

Roedd y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaethau a adolygwyd gennym yn cynnwys enw'r claf, ffotograff o'r claf, a'i statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cynnwys copiâu o'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth ac roeddent yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i gweinyddu, a nodwyd rheswm pan nad oedd y feddyginiaeth yn cael ei rhoi.

Er hynny, roedd meddyginiaeth yn cael ei dosbarthu ar Ward Howell ac yn cael ei gadael yn y pot cyflenwi ar y siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn y clinig pan ganfuwyd nad oedd y claf ar gael. Roedd hyn yn arfer gwael – dylai meddyginiaeth ond gael ei dosbarthu pan fo'r claf ar gael ac, yn yr achos hwn, dylai'r feddyginiaeth fod wedi'i gwaredu'n briodol.

Roedd un o'r siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth a welsom yn cynnwys rhestr hirsefydlog arno o feddyginiaethau anghywir. Roedd staff y ward yn ymwybodol o'r camgymeriad ond, er hynny, roedd risg posibl pe byddai aelod o'r staff nad oedd yn ymwybodol o'r camgymeriad yn ymgymryd â'r rownd meddyginiaeth.

Yn ystod yr arolygiad, roedd y bin offer miniog<sup>3</sup> o fewn ystafell glinig Iddon wedi'i orlenwi, a oedd yn peri risg o achosi niwed. Gwnaeth y staff gadarnhau nad oedd stoc o finiau offer miniog ar gael ac felly roeddent yn dibynnu ar wasanaethau fferyllfa allanol i ddisodli'r biniau offer miniog.

Gwnaethom nodi bod angen addasu drws y clinig ar Ward Osborn – roedd yn agor allan o'r clinig ac felly gallai achosi niwed pe byddai rhywun yn sefyll y tu allan i'r clinig.

---

<sup>3</sup> Cynhwysydd plastig caled a ddefnyddir i gael gwared ar nodwyddau hypodermig ac offer meddygol miniog eraill yn ddiogel.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth nad yw'n cael ei defnyddio yn cael ei gwaredu'n briodol.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw gamgymeriadau ar y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cywiro ar unwaith.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod system briodol ar waith ar gyfer casglu a disodli'r biniau offer miniog er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu gorlenwi.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig newid drws y clinig ar Ward Osbern fel na fydd yn agor allan i'r ward.

## Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd trefniadau wedi'u hen sefydlu ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gydag atgyfeiriadau i asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Roedd ystafell neilltuedig ar gael oddi ar y wardiau ar gyfer plant a oedd yn ymweld. Pan nad oedd cleifion yn gallu gadael y ward, gallai staff ar y wardiau hwyluso cyfarfodydd drwy ddefnyddio Skype.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn yr ysbyty, a chynhelir archwiliad bob wythnos o'r offer dadebru. Roedd y staff wedi nodi pryd y gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod yr offer ar gael ac yn gyfredol.

Roedd nifer o dorwyr rhwymynnau wedi'u lleoli drwy'r ysbyty i gyd rhag ofn bod argyfwng.

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol ar gyfer cleifion.

Roedd y trefniadau llywodraethu clinigol ar gyfer yr ysbyty yn bwydo i mewn i drefniadau llywodraethu The Priory Group, a oedd yn hwyluso proses dwy ffordd o fonitro a dysgu.

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Trwy adolygu cofnodion y cleifion a siarad â'r staff, roedd yn amlwg bod y gofal a ddarperir i gleifion yn seiliedig ar dystiolaeth a bod y staff yn ystyried yr amrywiaeth o ddewisiadau gofal fel tîm amlddisgyblaethol. Byddai'r staff yn holi barn y claf ynglŷn â'r gofal arfaethedig, ac yn cynnwys ei ddymuniadau lle bo modd.

Ers ein harolygiad diwethaf, mae'r nyrs datblygu ymarfer wedi gadael yr ysbyty. Roedd ei swyddogaeth yn cynnwys gwaith preceptoriaeth<sup>4</sup> gyda myfyrwyr nyrsio a nyrsys sydd newydd gymhwyso yn yr ysbyty. Roedd aelod o staff a oedd yn cyflenwi'r swydd hon ac yn darparu'r gefnogaeth ofynnol ar gyfer y nyrsys preceptoriaeth, ond nid oedd hyn yn drefniant parhaol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod swydd y nyrs datblygu ymarfer yn cael ei llenwi, yn enwedig er mwyn caniatáu i'r trefniadau preceptoriaeth barhau yn yr ysbyty.

## Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd y systemau cofnodion cleifion ar gyfrifiadur yn Llys Llanarth yn ddatblygedig iawn ac yn darparu gwybodaeth o ansawdd uchel am ofal cleifion unigol. Roedd staff o bob disgyblaeth yn ymgysylltu'n dda iawn â'r system 'Nodiadau Gofal' a oedd yn cael ei defnyddio.

Roedd y system PathNav<sup>5</sup> yn gynhwysfawr, yn hygyrch ac yn canolbwyntio ar y claf, ac roedd y wybodaeth oedd yn cael ei mewnosod a'i chadw ar y system hon yn canolbwyntio ar goliau. Roedd y system PathNav yn rhoi cleifion wrth galon eu triniaeth. Roedd cleifion yn cael eu hannog i weithio gyda'r nyrs enwebedig i leisio'u barn ar y system PathNav. Anogwyd cleifion hefyd i ymgysylltu â PathNav yn ystod rowndiau ward eu tîm amlddisgyblaeth.

---

<sup>4</sup> Cyfnod o brofiad ymarferol a hyfforddiant ar gyfer myfyriwr, yn enwedig myfyriwr sy'n astudio meddygaeth neu nyrsio, o dan oruchwyliaeth arbenigwr mewn maes penodol.

<sup>5</sup> PathNav oedd y system cynllunio gofal electronig a ddefnyddiwyd yn Llys Llanarth.

Roedd systemau electronig da ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau, archwiliadau clinigol a llywodraethu, adnoddau dynol, a systemau eraill yr ysbyty, a oedd yn cynorthwyo'r rheolwyr a'r gwaith o reoli Llys Llanarth.

### **Rheoli cofnodion**

Roedd yr holl gofnodion cleifion yn electronig ac wedi'u diogelu gan gyfrinair i atal mynediad heb awdurdod ac achosion o dorri cyfrinachedd.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion y cleifion ar draws y wardiau. Roedd yn amlwg bod y staff ar draws y timau amlddisgyblaeth yn ysgrifennu nodiadau yn fanwl ac yn rheolaidd, a oedd yn cynnwys dogfen fyw ynglŷn â'r claf a'i ofal.

Roedd y staff yn cwblhau dogfennau megis cynlluniau gofal a thriniaeth ac asesiadau risg yn llawn. Roedd yn gadarnhaol nodi, lle nad oedd adran yn berthnasol i glaf, y cofnodwyd hyn ac na chafodd ei gadael yn wag.

### **Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl**

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pump o'r cleifion ar draws pump o'r wardiau yn yr ysbyty.

Roedd yn amlwg bod gorchmynion cadw wedi cael eu cymhwyso a'u hadnewyddu yn unol â gofynion y Ddeddf, ac roedd copïau o bapurau cadw cyfreithiol ar gael yn ffeiliau'r cleifion.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei darparu i gleifion yn unol ag Adran 58 y Ddeddf, Cydsyniad i Driniaeth. Lle gofynnwyd am feddyg a benodwyd i roi ail farn, roedd cofnod o drafodaeth yr ymgynghoreion statudol wedi cael ei lenwi a'i gadw o fewn dogfennau'r meddyg hwn.

Roedd tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu cadw gyda'r siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth cyfatebol. Golygai hyn y gallai staff a oedd yn rhoi meddyginiaeth gyfeirio at y dystysgrif i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi o dan ddarpariaethau cydsynio i driniaeth Adran 58 y Ddeddf.

Gwnaethom nodi hefyd bod yr holl absenoldebau trwy ganiatâd wedi cael eu hawdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17.

Roedd dangosfwrdd cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Iechyd Meddwl cynhwysfawr a oedd yn rhoi gwybodaeth fanwl a chyfredol i'r gweinyddwr i sicrhau bod hawliau statudol y claf yn cael eu cadw o dan y Ddeddf, gan gynnwys apelio yn erbyn ei gadw. Roedd tystiolaeth bod cleifion yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol.

Mae gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn mynychu Fforwm Cymru Gyfan Gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnig y cyfle i gwrdd ac ymgysylltu â gweinyddwyr eraill y Ddeddf Iechyd Meddwl ledled Cymru i drafod themâu, materion a phrofiadau cyffredin. Ar yr un pryd, gall fyfyrion ar arferion presennol i'w helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â deddfwriaeth, cyfraith achosion ac ymarfer presennol.

Trwy sgwrsiau â staff, nodwyd bod diffyg amrywiaeth cefndiroedd ymhlith y rheolwyr ysbyty<sup>6</sup> yn Llys Llanarth i adlewyrchu grŵp cleifion yr ysbyty. Gwnaeth y staff esbonio'r anhawster o ran cael ystod amrywiol o reolwyr ysbytai oherwydd lleoliad yr ysbyty. Gwnaeth yr uwch-reolwyr gadarnhau yn ystod cyfarfod adborth yr arolygiad y byddent yn ceisio penodi rheolwyr ysbyty a fyddai'n adlewyrchu amrywiaeth y grŵp cleifion yn well.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig geisio penodi rheolwyr ysbyty a fyddai'n adlewyrchu amrywiaeth y grŵp cleifion yn well.

### Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal cyfanswm o wyth o gleifion.

Roedd tystiolaeth bod cydlynwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion a, lle bo'n briodol, bod aelodau teulu yn cael eu cynnwys yn y trefniadau cynllunio gofal. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru, gydag amcanion mesuradwy, ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth unigol yn pwysleisio cryfderau unigolion ac yn canolbwyntio ar adfer, adsefydlu a bod yn annibynnol. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn cynnwys gwaith monitro iechyd corfforol a hybu iechyd da. Roedd anghenion cleifion nad oeddent yn cael eu diwallu'n cael eu nodi hefyd.

---

<sup>6</sup> Y sefydliad (neu'r unigolion) sy'n gyfrifol am weithredu'r Ddeddf mewn ysbyty penodol. Mae gan reolwyr ysbyty swyddogaethau amrywiol dan y Ddeddf, sy'n cynnwys y pŵer i ryddhau claf.

Er mwyn cefnogi cynlluniau gofal cleifion, roedd amrywiaeth eang o asesiadau cleifion i nodi a monitro'r gofal a ddarperir i gleifion, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau canfyddedig a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Er hynny, wrth inni adolygu cynlluniau gofal y cleifion, gwnaethom nodi nad oedd unrhyw gynllun gofal penodol mewn perthynas ag ymddygiad un claf, a oedd yn effeithio ar ei urddasrwydd ei hun a phrofiad cleifion eraill. Pan wnaethom edrych ar gofnodion y claf, roedd gwybodaeth a oedd yn ymwneud â'r ymddygiad, ond nid oedd yn nodi gweithrediadau penodol. Gwnaethom drafod hyn â nyrs allweddol y claf, a aeth ati i ddatblygu cynllun gofal manwl, yn seiliedig ar dystiolaeth, a fyddai'n cael ei ystyried gan dîm amlddisgyblaethol y claf, a'i drafod â'r claf er mwyn cael ei farn.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn ategu'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu a monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Gwelsom drefniadau rheolaeth ac arweinyddiaeth da yn Llys Llanarth, a oedd yn cael eu cefnogi gan The Priory Group. Gwelsom dîm staff ymroddedig â dealltwriaeth dda iawn o anghenion y cleifion a oedd yn yr ysbyty.

Er gwaethaf y newidiadau sefydliadol a'r newidiadau i nifer o'r personél uwch yn yr ysbyty ers ein harolygiad diwethaf, gwnaeth y staff gadarnhau bod y morâl wedi dechrau gwella ers yr ansicrwydd a oedd yn gysylltiedig â'r newidiadau hyn.

Roedd y broses o recriwtio yn agored a theg, gyda gwiriadau cyflogi priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogi ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth. Roedd y staff yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol rheolaidd, yn derbyn sesiynau goruchwylio gan reolwyr ac arfarniadau blynyddol, ac yn cael y cyfle i gael fynediad at oruchwyliaeth glinigol.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwelsom fod systemau a phrosesau clir iawn ar waith er mwyn sicrhau bod yr ysbyty'n canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Cyflawnwyd hyn, yn rhannol, drwy raglen archwilio dreigl a'i strwythur llywodraethu sefydlog, a oedd yn galluogi aelodau staff allweddol/a enwebwyd i gwrdd yn rheolaidd i drafod y canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal i gleifion. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu cofnodi er mwyn gallu eu hadolygu.

Roedd gan uwch-reolwyr penodedig gyfrifoldebau penodol dros sicrhau bod y rhaglen ar gyfer llywodraethu'n rhan amlwg o ddarparu gwasanaeth. Canfuom fod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion.



Ers ein harolygiad blaenorol, cafwyd nifer o newidiadau sylweddol o ran y berchnogaeth a'r rheolwyr. Roedd y darparwr cofrestredig wedi newid o Partnerships in Care i Priory Healthcare. Roedd rheolwr ysbyty a rheolwr gwasanaethau clinigol newydd wedi cael eu penodi ers i'r gweithwyr a oedd yn gwneud y swyddi hynny ymadael.

Roedd gan bob ward dîm amlddisgyblaethol penodol a oedd yn cynnwys rheolwr y ward, dwy brif nyrs, clinigydd cyfrifol, seicolegydd, therapydd galwedigaethol a gweithiwr cymorth therapi. Roedd y timau amlddisgyblaethol hefyd yn cael cymorth gan weithwyr cymdeithasol yr ysbyty, therapyddion chwaraeon, a thiwtor i oedolion.

Ers ein harolygiad blaenorol, roedd rheolwyr y wardiau ar gyfer Deri, Iddon ac Osbern wedi gadael yr ysbyty hefyd, ynghyd ag un brif nyrs ar Ward Iddon. Er mwyn sefydlogi'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth ar y wardiau hyn, roedd y darparwr cofrestredig wedi cefnogi nifer o nyrsys cofrestredig profiadol yn yr ysbyty i gyflawni'r swyddi hyn dros dro wrth i'r darparwr recriwtio i lenwi'r swyddi gwag.

Trwy sgysiau â'r staff, arsylwi cyfarfodydd a gwaith ymgysylltu timau amlddisgyblaethol, ac adolygu cofnodion y cleifion, gwelwyd tystiolaeth bod gwaith tîm cryf gan timau amlddisgyblaethol yn Llys Llanarth. Gwnaeth y staff siarad yn gadarnhaol o ran y gwaith amlddisgyblaethol, gan nodi eu bod yn teimlo bod staff eraill yn gwrando ar eu barn ac yn ei pharchu.

Roedd pennaeth adran ar gyfer pob disgyblaeth a oedd yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer ei dîm ac yn cysylltu ar y cyd â phenaethiaid yr adrannau eraill yn The Priory Group.

Byddai aelodau staff Llys Llanarth yn cwrdd yn rheolaidd hefyd gyda chynrychiolwyr lleol The Priory Group a chynrychiolwyr y brif swyddfa i drafod gweithrediadau a chynllunio strategol, ac roedd canlyniadau'r cyfarfodydd hyn yn cael eu bwydo yn ôl wedyn i'r tîm staff yn Llys Llanarth yn ystod cyfarfodydd rheolaidd.

Gwnaeth y staff siarad yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r cymorth a ddarparwyd gan yr uwch-reolwyr a rheolwyr y wardiau. Cydnabuwyd, gan y staff a'r rheolwyr, bod yr ansicrwydd o ran y newidiadau sefydliadol, a nifer o newidiadau o ran personél allweddol yn yr ysbyty, wedi effeithio'n negyddol ar forâl y staff. Roedd yn gadarnhaol nodi, fodd bynnag, trwy ein sgysiau gyda'r staff, eu bod yn dweud bod morâl wedi gwella dros y misoedd diweddar, gyda chymorth gan yr arweiniad a'r sefydlogrwydd a ddarparwyd gan reolwyr yr ysbyty.

Roedd yn gadarnhaol, drwy gydol yr arolygiad, bod y staff yn Llys Llanarth yn agored i'n safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

### **Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd yn amlwg bod y darparwr cofrestredig yn monitro pryderon a digwyddiadau yn lleol yn Llys Llanarth ac yn gorfforaethol drwy fecanweithiau adrodd rheolaidd.

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Gwnaethom adolygu'r trefniadau staffio yn Llys Llanarth a'r hyn a nodwyd yn ei ddatganiad o ddiben. Roedd swyddi gwag ar gyfer 21 nyrs gofrestrdig a 12 o weithwyr cymorth gofal iechyd yr oedd y darparwr cofrestredig yn recriwtio i'w llenwi; roedd hyn yn cynnwys y swyddi gwag ar gyfer rheolwr y ward a'r brif nyrs a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad. I gyflenwi unrhyw ddiffygion o ran bodloni rotâu staff a allai ddigwydd oherwydd swyddi gwag, roedd gan y darparwr cofrestredig system cronfa staff ar waith, ac roedd yn cynnig sifftiau goramser.

Gwnaeth nifer o'r gweithwyr cymorth gofal iechyd y buom yn siarad â nhw fynegi eu diddordeb mewn datblygu eu gyrfaedd i hyfforddi i ennill cymhwyster nyrs gofrestrdig. Gwnaeth uwch-reolwyr gadarnhau bod cyfle ar gael gyda'r darparwr cofrestredig i weithwyr cymorth gofal iechyd ymgymryd â hyfforddiant nyrs gofrestrdig, gyda chefnogaeth gan eu cyflogwr. Nid oedd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r cyfle hwn. Dylai'r darparwr cofrestredig gefnogi'r gweithwyr cymorth gofal iechyd hynny a fynegodd ddiddordeb mewn datblygu eu gyrfaedd drwy ymgymryd â hyfforddiant fel nyrs gofrestrdig.

Roedd timau amlddisgyblaethol wedi'u hen sefydlu ar y wardiau. Fodd bynnag, roedd nifer o swyddi gwag allweddol yr oeddent yn recriwtio i'w llenwi; roedd y rhain yn cynnwys un clinigydd cyfrifol ac un seicolegydd.

Gwnaethom adolygu'r ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff yn Llys Llanarth a chanfuom fod y cyfraddau cwblhau yn uchel iawn. Roedd y system electronig yn rhoi manylion cydymffurfiaeth yr adran a staff unigol i reolwyr yr ysbyty.

Roedd y staff yn Llys Llanarth yn derbyn sesiynau goruchwylio rheolaidd gan reolwyr ac arfarniadau blynyddol. Roedd goruchwyliaeth glinigol ar gael i'r staff. Fodd bynnag, dywedodd nifer o'r staff nad oeddent yn gwybod pwy oedd y goruchwylwyr clinigol. Gwnaethant hefyd ddisgrifio profiadau negyddol, a oedd wedi eu gwneud yn anfodlon i geisio am oruchwyliaeth glinigol. Er bod gan y darparwr cofrestredig restr o'r goruchwylwyr clinigol oedd ar gael i'r staff, dylai'r darparwr hyrwyddo goruchwyliaeth glinigol i'r staff er mwyn cynyddu'r nifer sy'n ei derbyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig recriwtio nyrsys cofrestredig, gweithwyr cymorth gofal iechyd, clinigydd cyfrifol a seicolegydd i'r swyddi gwag sydd ar gael.

Dylai'r darparwr cofrestredig gefnogi'r gweithwyr cymorth gofal iechyd hynny a fynegodd ddiddordeb mewn datblygu eu gyrfaedd drwy ymgymryd â hyfforddiant fel nyrs gofrestrdig.

Dylai'r darparwr cofrestredig hyrwyddo goruchwyliaeth glinigol i'r staff er mwyn cynyddu'r nifer sy'n ei derbyn.

### Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaethom adolygu chwe set o ffeiliau staff, a gwnaeth y staff esbonio'r prosesau recriwtio oedd ar waith yn Llys Llanarth.

Roedd yn amlwg bod systemau ar waith i sicrhau bod gwaith recriwtio yn dilyn proses agored a theg. Cyn cyflogi, roedd geirdaon staff yn cael eu derbyn, roedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal, ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu gwirio.

Roedd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ar ôl pob cyfnod tair blynedd o weithio, ac roedd cofrestriadau proffesiynol yn cael eu monitro.

## 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad.
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein hadolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol fel arfer yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw ar gyfer arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) ac yn gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau [iechyd meddwl](#) ac [annibynnol](#) ar gael ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion</b>	<b>Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

## Atodiad B – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Llys Llanarth

**Wardiau:** Awen, Deri, Howell, Iddon, Osbern, Teilo a Threowen

**Dyddiad yr arolygiad:** 3 – 7 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddisodli'r cyfarpar codi pwysau yng nghampfa'r ysbyty.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Cafodd gwariant cyfalaf ei gymeradwyo; yn y broses o archebu offer newydd.	Cerys Morris	1 Medi
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y rhyngwyd ar gael ar y wardiau, yn seiliedig ar asesiadau risg unigol y cleifion.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae'r ystafell addysg bellach yn cynnig mynediad i gleifion i'r rhyngwyd. Caiff rhwydwaith defnyddwyr gwasanaeth ei weithredu, a fydd yn galluogi cleifion i gael mynediad at Wi-Fi diogel. Bydd o leiaf un cyfrifiadur / dyfais rhyngwyd ar gael ar bob ward.	Cerys Morris	Mawrth 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod	10. Urddas a	Cafodd llenni eu gosod fel arbrawf ar	Cerys Morris	30 Tachwedd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
trefniadau priodol ar waith fel nad yw'r cleifion yn gosod tyweli dros y panelau arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely.	pharch	ward Iddon, a byddant yn cael eu cyflwyno ledled y safle lle bo angen.		
Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r drefn ofodol ar gyfer y dyfodol ar y pedair ward Deri, Iddon, Howell ac Osbern i sicrhau y bydd amgylcheddau'r wardiau yn parhau i adlewyrchu safonau'r dyfodol o ran darparu ar gyfer cleifion mewnol. Yn ogystal, dylid cael gwared ar y gofyniad i gleifion gael eu lleoli ar lefelau penodol o'r wardiau yn ystod y dydd.	10. Urddas a pharch	<p>Cafodd gwariant cyfalaf yr ystadau yn 2018/2019 ei gyflwyno ar gyfer y pedair ward Deri, Iddon, Osbern a Howell i gael eu hailgyfarparu i gynnwys ailsefydlu o dan glo.</p> <p>Cafod caniatâd cynllunio ar gyfer ailadeiladu unedau diogelwch isel/canolig newydd gerllaw ward Iddon hefyd ei gynnwys.</p> <p>Lluniwyd gweithdrefnau newydd i gleifion sy'n cael mynediad at lefelau penodol o'r wardiau yn ystod y dydd a byddant yn cael eu harddangos yn y wardiau.</p>	<p>Ystadau, Warren Irving, Cerys Morris</p> <p>Rheolwyr wardiau</p>	<p>20 Hydref 2017</p>
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried cynnwys rhan sy'n nodi canlyniad unrhyw gamau gweithredu a gymerir gan y tîm amlddisgyblaethol yn ei daenlen pryderon.	5. Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth	Bydd y cofnodion cwynion bellach yn cynnwys tystiolaeth o drafodaeth y tîm amlddisgyblaethol. Bydd hyn wedyn yn cael ei gynnwys ar y daenlen gwynion.	Bradley Dallimore	1 Medi



Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu ynglŷn â pharhad y gwaith gweddnewid.	22. Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Rhoddir adborth mewn cyfarfodydd cymunedol ac mewn fforymau cleifion.	Mike Payne, rheolwyr wardiau	Cwblhawyd
Dylai'r ysbyty adolygu'r cysgodfannau ysmegu ac ystyried p'un a ellid darparu cysgodfan mwy priodol yn y gerddi ar ôl i waharddiad ysmegu'r ysbyty ddechrau.	22. Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Bydd yr holl gysgodfannau ysmegu yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod cyngor nesaf y cleifion.	Treeve Brooks, Cerys Morris	14 Awst
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y wardiau yn cael eu cadw'n daclus drwy gydol y dydd a'r nos.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Cydlynwyr nos i sicrhau bod y staff nos yn cynnal glanweithdra'r wardiau.	Rheolwyr wardiau a chydlynwyr nos	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cymryd camau priodol a phrydlon i fynd i'r afael ag aroglau annymunol ar y wardiau.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Tîm cadw tŷ i fynd i'r afael â hyn.	Rheolwyr wardiau a'r tîm cadw tŷ	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad oes marciau gweddillion tâp gludiog ar y wardiau.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Tîm cynnal a chadw i gael gwared ar yr holl weddillion tâp gludiog.	Cynnal a chadw	30 Medi
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hambwrdd dal diferynnau'r cyflenwr llaeth ar Ward Howell yn cael ei ddisodli.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Mae rhannau wedi cael eu harchebu.	Sue Gardener	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod peiriannau cyflenwi diodydd poeth ac oer y cleifion yn cael eu cadw'n lân drwy gydol y dydd a'r nos.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Rheolwyr wardiau a'r cydlynwyr nos i fonitro hyn.	Rheolwyr wardiau a'r cydlynwyr nos	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth nad yw'n cael ei defnyddio yn cael ei gwaredu'n briodol.	15. Rheoli meddyginiaethau	Mae rheolwr y ward gyda'r nyrs staff wedi ymdrin â hyn. Hyfforddiant gyda fferyllfa Ashtons yn cael ei gyflwyno i'r holl staff nyrsio.	Rheolwyr wardiau, fferyllfa Ashtons	30 Tachwedd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw gamgymeriadau ar y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cywiro ar	15. Rheoli meddyginiaethau	Fel yr uchod	Fel yr uchod	30 Tachwedd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
unwaith.				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod system briodol ar waith ar gyfer casglu a disodli'r biniau offer miniog er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu gorlenwi.	15. Rheoli meddyginiaethau	Contract priodol ar waith – nid oedd y staff wedi cael gwared ar y biniau i sicrhau storio yn unol â'r broses. Anfonwyd e-bost at bob aelod o staff i'w hatgoffa o'r broses gywir.	Mike Payne	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig newid drws y clinig ar Ward Osbern fel na fydd yn agor allan i'r ward.	15. Rheoli meddyginiaethau	Mae tîm cynnal a chadw wedi trefnu hyn gyda'r ward.	Cynnal a chadw	16 Awst
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod swydd y nyrs datblygu ymarfer yn cael ei llenwi, yn enwedig er mwyn caniatáu i'r trefniadau preceptorïaeth barhau yn yr ysbyty.	6. Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd	Ar hyn o bryd, mae un yn y swydd ar delerau dros dro. Mae'r rôl yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.	Adnoddau Dynol	30 Tachwedd
Dylai'r darparwr cofrestredig geisio penodi rheolwyr ysbyty a fyddai'n adlewyrchu amrywiaeth y grŵp cleifion yn well.	Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Hysbysebion allan ar hyn o bryd. Cynhaliwyd diwrnodau agored.	Andrea Roberts, Karin Wathen	30 Tachwedd

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig recriwtio nyrsys cofrestredig, gweithwyr cymorth gofal iechyd, clinigydd cyfrifol a seicolegydd i'r swyddi gwag sydd ar gael.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Recriwtio ar hyn o bryd.	Adnoddau Dynol	Yn parhau
Dylai'r darparwr cofrestredig gefnogi'r gweithwyr cymorth gofal iechyd hynny a fynegodd ddiddordeb mewn datblygu eu gyrfaedd drwy ymgymryd â hyfforddiant fel nyrs gofrestrdig.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Mae'r Priory yn cyflwyno hyn ar hyn o bryd; mae angen cadarnhau darpariaeth Cymru.	Adnoddau Dynol, Cerys Morris	30 Tachwedd
Dylai'r darparwr cofrestredig hyrwyddo goruchwyliaeth glinigol i'r staff er mwyn cynyddu'r nifer sy'n ei derbyn.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Cynnydd yn y nifer o oruchwylwyr clinigol sydd ar gael.	Nyrs Datblygu Ymarfer, rheolwyr wardiau, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):** Cerys Morris  
**Swydd:** Cyfarwyddwr yr Ysbyty  
**Dyddiad:** 10 Hydref 2017